



CIWM

Qualifications

0088, Fersiwn 2, Medi 2023

Polisi Defnyddio leithoedd

Gyda'n gilydd, safwn dros fyd y tu hwnt i

Hawlfraint ©2023 CIWM

CIWM sy'n berchen ar hawlfraint y ddogfen hon. Mae unrhyw berson sy'n darllen, yn argraffu ac yn dosbarthu'r ddogfen hon yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

- Dim ond at ddibenion gwybodaeth y ceir defnyddio'r ddogfen
- Dim ond at ddibenion anfasnachol y ceir defnyddio'r ddogfen
- Dylai unrhyw un sy'n defnyddio'r wybodaeth a ddarperir yn y ddogfen hon gydnabod CIWM
- Ni chaniateir atgynhyrchu na chopïo'r deunyddiau hyn

Mae newidiadau'n cael eu gwneud o bryd i'w gilydd i'r wybodaeth sydd yn y ddogfen, felly i gael y fersiwn ddiweddaraf, ewch i QuartzWeb (ar gyfer Canolfannau Cymwysterau a Darparwyr Hyfforddiant CIWM (WAMITAB) neu cysylltwch â ni'n uniongyrchol i gael rhagor o wybodaeth ar info.admin@ciwm.co.uk.

I gael rhagor o wybodaeth am faterion yn ymwneud ag Eiddo Deallusol, cysylltwch ag info.admin@ciwm.co.uk.

Sylwch fod yr holl ddelweddau wedi dod o i-stock.

Ymwadiad

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir wrth fynd i'r wasg. Arweiniad yn unig yw'r wybodaeth yn y llyfr hwn ac ni ellir dal CIWM yn gyfrifol am unrhyw wallau.

Cynnwys

Cynnwys	3
Pwrpas y polisi hwn.....	4
Datganiad Polisi.....	4
Datganiad polisi iaith Gymraeg	4
Ar gyfer cyflwyno mewn iaith arall.....	5
Cyfieithu asesiadau'r dysgwr	5
Enghraifft Cymhwyso Polisi	5

Pwrpas y polisi hwn

Mae'r polisi hwn ar gyfer Canolfannau Cymwysterau CIWM (WAMITAB) sy'n darparu cymwysterau CIWM ac sydd eisiau ddeall sut i dderbyn ac asesu gwaith dysgwyr mewn iaith heblaw Saesneg. Mae'n disgrifio'r hyn y mae angen i Ganolfannau Cymwysterau CIWM (WAMITAB) ei ystyried cyn asesu gwaith mewn ieithoedd eraill a sut i wneud cais i asesu gwaith mewn ieithoedd heblaw Saesneg.

Datganiad Polisi

Mae CIWM wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaethau sy'n berthnasol, yn ddeniadol ac yn hygyrch i bawb a allai fod eisiau eu defnyddio.

Bydd CIWM yn paratoi asesiadau cymwysterau a deunyddiau ategol yn Saesneg oherwydd dyma'r iaith a ddefnyddir gan fwyaf yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn gyffredinol, mae ein cymwysterau'n cael eu hasesu yn Saesneg, ond mewn rhai achosion, byddwn yn cefnogi'r gwaith o asesu dysgwyr mewn ieithoedd eraill os:

- Nid oes angen rhuglder yn Saesneg ar gyfer y rôl.
- Mae dysgwr sy'n cael ei asesu mewn iaith wahanol wedi bodloni'r un gofynion â'r dysgwyr hynny sy'n cael eu hasesu yn Saesneg.
- Mae iaith yr asesiad wedi'i nodi'n glir ar y dystysgrif.

Os oes angen darparu safonau a dogfennau ategol mewn iaith arall (e.e. Cymraeg neu Wyddeleg), bydd CIWM yn gofyn am gymorth cyfieithydd i drawsgrifio'r deunyddiau.

Sylwer y bydd holl weithgareddau cymeradwyo a sicrhau ansawdd Canolfannau Cymwysterau CIWM (WAMITAB) yn cael eu cynnal yn Saesneg. Bydd y canlynol ar gael yn Saesneg yn unig:

- Deunyddiau safoni Canolfannau Cymwysterau CIWM (WAMITAB)
- Canllawiau Canolfannau Cymwysterau CIWM (WAMITAB)
- Deunyddiau hyfforddi Canolfannau Cymwysterau CIWM (WAMITAB)
- Strategaethau Asesu CIWM (WAMITAB)

Datganiad polisi iaith Gymraeg

Mae'r datganiad polisi canlynol wedi'i ddylunio i gydymffurfio ag Amod D9 yn yr Amodau Cydnabod Safonol. I gefnogi adolygiad Cymwysterau Cymru o Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid, yn ogystal â thargedau Cymraeg 2050 i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, mae CIWM yn darparu'r cymwysterau canlynol a'u deunyddiau ategol yn Gymraeg ac yn Saesneg:

Teitl y Cymhwyster
Diploma Lefel 2 CIWM (WAMITAB) ar gyfer Gweithgareddau Ailgylchu Cynaliadwy
Diploma Lefel 3 CIWM (WAMITAB) ar gyfer Gweithgareddau Ailgylchu Cynaliadwy (Goruchwylio)

Mae'r deunyddiau canlynol ar gyfer pob un o'r cymwysterau hyn ar gael yn Gymraeg drwy ein gwefan a Quartz:

- Datganiadau pwrpas.
- Llawlyfrau cymwysterau.

Ar gyfer cyflwyno mewn iaith arall

Cyn dechrau cyflwyno mewn iaith arall, rhaid i Ganolfan Cymwysterau CIWM (WAMITAB) sicrhau'r canlynol:

- Eu bod wedi'u cymeradwyo i gyflwyno'r cymhwyster.
- Bod ganddynt staff cyflwyno wedi'u cymeradwyo i ddarparu'r cymhwyster.
- Eu bod wedi cyflwyno datganiad i CIWM yn amlinellu sut y byddant yn sicrhau bod dysgwyr yn cael profiad teg.
- Bod y gwaith cyfieithu'n cael ei wneud gan gyfieithwyr cymwys a phroffesiynol sydd ag o leiaf **tair** blynedd o brofiad a dim **buddiant** yng nghanlyniad yr asesiad.
- Bod ganddynt ddigon o arian i fodloni unrhyw ofynion cyfieithu (e.e. ar gais, rhaid i Ganolfannau Cymwysterau CIWM (WAMITAB) sicrhau bod CIWM yn cael samplau penodol o ddeunyddiau cwrs a/neu asesiadau'r dysgwr wedi'u cyfieithu i'r Saesneg ar gyfer gweithgareddau archwilio mewnol, apeliadau, digwyddiadau, ymchwiliadau, samplu canolog a safoni).

Cyfieithu asesiadau'r dysgwr

Bydd CIWM yn gweithio gyda Chanolfannau Cymwysterau CIWM (WAMITAB) i sicrhau bod gweithredu'r holl gymwysterau yn darparu mecanweithiau digonol i warantu cysondeb asesiadau ar draws pob iaith.

Rhaid asesu asesiadau'n fewnol, a sicrhau ansawdd yn fewnol ac yn allanol yn yr iaith wreiddiol. Er mwyn sicrhau ansawdd, bydd CIWM yn ceisio penodi swyddogion sicrhau ansawdd dwyieithog priodol i fonitro ac i gymeradwyo'r holl ddeunyddiau a dulliau asesu a ddefnyddir. Os bydd unrhyw faterion yn codi yn ystod y broses hon, bydd CIWM yn gofyn am gyngor ac arweiniad gan y rheoleiddwyr addysg.

Sylwch y bydd y Ganolfan Cymwysterau CIWM (WAMITAB) yn gyfrifol am gost cyfieithu proffesiynol os bydd CIWM yn gofyn amdano.

Enghraifft Cymhwyso Polisi

Nid Saesneg yw iaith dysgwr ac mae'n ei chael hi'n anodd siarad/ysgrifennu'r iaith. Mae wedi cael ei gyflwyno ar gyfer cymhwyster CIWM.

Gellir ymdrin â'r holl wybodaeth sylfaenol drwy recordiad neu ei hysgrifennu yn iaith y dysgwr ei hun. Rhaid cael dau gyfieithydd; un wedi'i benodi gan y Ganolfan Cymwysterau CIWM (WAMITAB) i wneud y cyfieithiad cychwynnol yn barod ar gyfer asesu a sicrhau ansawdd mewnol. Rhaid i'r ail gyfieithydd fod yn annibynnol ar y Ganolfan Cymwysterau CIWM (WAMITAB) ac wedi'i benodi gan CIWM i wirio cywirdeb y cyfieithiad. Rhaid i'r Ganolfan Cymwysterau CIWM (WAMITAB) dalu cost y ddau gyfieithydd.

Fodd bynnag, os yw rôl yr unigolyn sy'n ymgymryd â'r cymhwyster, a'i weithgareddau i fodloni'r safonau, yn gofyn iddo ddangos ei fod yn gallu cyfathrebu yn ôl yr angen yn Saesneg, yna rhaid

dangos hynny. Er enghraifft, os oes angen cynefino unigolyn â'r safle gwastraff, rhaid dangos hyn yn Saesneg oni bai fod y cyflogwr wedi ymrwymo i ddarparu cyfieithydd fel rhan o addasiadau rhesymol y gweithiwr yn y gweithle (h.y. mae'n amod o'i gyflogaeth). Mae'r un peth yn wir am ddeall arwyddion a pharatoi nodiadau trosglwyddo a dychwelyd gwastraff.



CIWM

Qualifications

Gyda'n gilydd, safwn
dros fyd y tu hwnt i

Ein pwrpas yw symud y byd y tu hwnt i wastraff

Helpwch ni i ddiogelu'r amgylchedd drwy beidio ag argraffu'r ddogfen hon oni bai fod hynny'n gwbl angenrheidiol a, phan fo'n bosibl, argraffu'r tudalennau sydd eu hangen arnoch yn unig.

Mae'r ddoafen hon wedi'i dylunio i

Mwy am fywyd proffesiynol

Ein cenhadaeth yw uno, arfogi a sbarduno ein cymuned broffesiynol i arwain, darparu a dylanwadu ar y wyddoniaeth, y strategaethau, y busnesau a'r polisiâu ar gyfer rheoli adnoddau a gwastraff yn gynaliadwy.

I gael rhagor o wybodaeth am sut

CIWM
Quadra
500 Pavilion Drive
Northampton Business Park
Northampton
NN4 7YJ

Ffôn: 01604 620426

E-bost: qualifications@ciwm.co.uk